

Addysg / Education

Gwasanaeth Adnoddau / Resources Service

Swyddog Gwybodaeth /
Information Officer – Owain Dewi Hughes
Gofynnwch am/Ask for: Mr. Dewi Hughes

☎ (01286) 679904

📄 (01286) 677347

✉ OwainDHughes@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: llythmynediad/ODH

At: Brifathrawon Ysgolion Cynradd Y Sir

Medi 2015

Annwyl Brifathro/Brifathrawes,

DERBYN PLANT I'R YSGOL – MEDI 2016

Cyfeiriaf at y trefniadau ar gyfer derbyn plant i'r ysgol ym mis Medi, 2016 yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdod. **Hoffwn eich atgoffa mae'r Adran Addysg sydd bellach yn prosesu a chaniatáu / gwrthod pob cais am fynediad.**

Yn benodol, hoffwn ddwyn eich sylw at y canlynol:

1) Amserlen

Yn unol â'r Polisi Mynediad, bydd y mwyafrif o ysgolion yn derbyn plant fydd yn **3 oed cyn 1 Medi, 2016**, yn rhan amser ym mis Medi. I'r ysgolion hynny sydd heb ddarpariaeth meithrin 3 oed byddant yn derbyn plant fydd yn **4 oed cyn 1 Medi, 2016 yn llawn amser**.

Mae'r amserlen a'r trefniadau mynediad yn gyson i'r plant rhan amser a'r plant llawn amser yn yr ystyr bydd yn rhaid iddynt llenwi ffurflen cais i'r awdurdod cyn **1 Mawrth, 2016**. **Ni ellir gwarantu llefydd i blant o'r dalgylch sydd yn cysylltu ar ôl 1 Mawrth.**

Dylech gyfarwyddo rhieni pob plentyn sy'n cysylltu bod rhaid cyflwyno cais drwy'r swyddfa yng Nghaernarfon. Amgaeaf gopi o'r ffurflen gais i chi ei rhoi i rieni. Gofynnir i'r rhieni ddychwelyd yr ffurflenni unrhyw amser o Medi ymlaen a peidio disgwyl tan y funud olaf. Mae modd i rieni gwneud cais ar-lein trwy www.gwynedd.gov.uk/mynediadysgolion neu www.gwynedd.gov.uk/schooladmissions. Croeso i chi helpu unrhyw riant sydd â chyfeiriad e-bost gwneud cais ar-lein yn yr ysgol.

Pan fydd rhiant yn cysylltu yn uniongyrchol ag ysgol i holi ynglŷn â mynediad dylid osgoi rhoi unrhyw awgrym y bydd mynediad yn cael ei ganiatáu neu ei wrthod. Dylai pennaeth, pan yw'n derbyn ymholiad o'r fath, egluro i'r rhiant y drefn ar gyfer gwneud cais.

Mae'n ofynnol cynnal trefn briodol ar gyfer ystyried mynediad i ddosbarth **derbyn** (h.y. yn y Medi yn dilyn penblwydd plentyn yn 4 oed) yn ogystal ag unrhyw drefn sy'n bodoli ar gyfer mynediad i'r Flwyddyn Meithrin (h.y. rhan amser yn y Medi yn dilyn penblwydd yn 3 oed). Rhybuddiwyd rhieni'r plant sydd yn y Flwyddyn Meithrin eleni bod caniatâd mynediad i Flwyddyn Meithrin ym Medi 2015 yn ganiatâd am y flwyddyn honno'n unig, a bydd yn rhaid i rhieni **bob** plentyn yn y Dosbarth Meithrin eleni gyflwyno cais o'r newydd am fynediad i'r Flwyddyn Derbyn ym Medi 2016.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd, LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.gov.uk

Addysg / Education

Gwasanaeth Adnoddau /

Resources Service

Swyddog Gwybodaeth /
Information Officer – Owain Dewi Hughes

Mi fydd yr hysbyseb amgaeedig yn ymddangos yn y wasg leol yn ystod mis Hydref 2015. Mae croeso i chi lunio hysbysebion eich hunain er mwyn eu dangos mewn manau lleol ond yn unol â'r cod ymarfer dylid sicrhau bod hysbysebion o'r fath wedi eu hanelu at rieni'r dalgylch yn unig.

2) Penderfyniadau

Bydd yr Adran Addysg yn ymdrin â'r holl geisiadau am fynediad i'r Blynyddoedd Meithrin a Derbyn yn unol â'r meini prawf a nodir yn y Polisi Mynediad. Cysylltaf â chi ar ôl 1 Mawrth ynglŷn â'r ceisiadau er mwyn sicrhau bod y cyfanswm nifer plant yn is na'r rhif mynediad cyfredol ac er mwyn sicrhau bod dosbarthiadau babanod yn cael eu cadw yn 30 neu lai. Byddaf wedyn yn ysgrifennu at bob rhiant yn eu hysbysebu o ganlyniad eu cais.

Nid oes hawl gan ysgol derbyn unrhyw blentyn heb weld copi o lythyr caniatâd gan yr Adran Addysg.

3) Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni – Ysgol

Yn ôl yr arfer mae gofyn ar yr ysgol i gynhyrchu llawlyfr gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth statudol sy'n cydymffurfio â Chylchlythyr Y Cynulliad Cenedlaethol – “Prosbectysau Ysgolion - Canllawiau ar gyfer Penaethiaid a Chyrff Llywodraethol (Cylchlythyr 14/01)” ynghyd â gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch ysgol chi.

Buaswn yn ddiolchgar felly, pe gallech roi sylw i'r mater ac yn trefnu bod y llawlyfr ar gael i rieni fydd yn gwneud cais ar gyfer eu plant yn yr ysgol am y tro cyntaf ar gyfer Medi, 2016. Unwaith y bydd copïau ar gael buaswn yn ddiolchgar pe byddai modd i chi drefnu i anfon un copi cyfeiriol i fi os gwelwch yn dda.

4) Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni - Awdurdod

Mae hefyd yn angenrheidiol bod llawlyfr yr Awdurdod ar gael i rieni. O ganlyniad, amgaeaf gyflenwad o lawlyfrau. Pe baech yn dymuno derbyn rhagor, dylid cysylltu gyda fi os gwelwch yn dda.

5) Ffurflen “SIMS” Casglu Gwybodaeth Disgyblion

Bydd yr Awdurdod o hyn ymlaen yn dosbarthu ffurflenni SIMS (i'r rhieni eu dychwelyd i'r ysgol) gyda'r llythyr derbyn i'r ysgol. Ond, amgaeaf gopïau sbâr ar gyfer rhieni sydd wedi colli'r ffurflen.

Yn y cyfamser, pe byddech yn dymuno trafod unrhyw fater ymhellach dylid cysylltu gyda fi ar (01286) 679904.

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,
Owain Dewi Hughes
Swyddog Gwybodaeth

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd, LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.gov.uk